Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UnLtd

Community Murals CIC

Sefydlwyd 'Community Murals CIC' gan Andrew Bolton yn 2022 fel ffordd i'r gymuned anabl a lleiafrifoedd ethnig gysylltu a darganfod eu potensial trwy greu murluniau o ansawdd uchel ar gyfer mannau cyhoeddus ledled Prydain.

Heriau

Fe wnaeth cyflwr niwrolegol cynyddol Andrew ei ysgogi i ymwneud â gweithredu ym maes anabledd. Mae Andrew yn cydnabod bod unigolion anabl wedi'u hynysu, gan arwain at golli hyder a methu â chyrraedd llawn botensial. Mae pedair gwaith cymaint o bobl anabl dros 16 oed yn teimlo'n unig o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl ac mae dwywaith cymaint yn ddi-waith. Roedd Andrew yn rhagweld defnyddio celf fel ffordd o annog pobl ag anableddau i ailintegreiddio i gymdeithas.

Datrysiad

Mae Andrew yn dod ag aelodau o'r gymuned ynghyd i greu murluniau fel cyfanwaith mewn mannau cyhoeddus i bawb eu gweld a'u mwynhau. Mae Andrew wedi gweithio gyda chymunedau ledled y DU, gan arddangos murluniau ar ganolfannau ieuenctid, ysgolion ac adeiladau cyhoeddus. Mae'r broses greadigol hon yn ffordd hwyliog a mynegiannol i aelodau'r gymuned anabl gyfleu delweddau a negeseuon pwerus gan ymgyrchu dros faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae gwaith Andrew yn annog trafodaeth, gan roi llais i bobl sydd ar y cyrion o bob rhan o'r gymuned gan gynnwys yr anabl, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n byw mewn tlodi.

Cyflawniadau

Hyd yn hyn, mae Andrew wedi helpu dros 100 o bobl i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o bwy ydyn nhw ac adeiladu eu hyder. Mae pob person yn gorffen prosiect yn teimlo'n falch eu bod wedi cyflawni rhywbeth nad oeddent yn credu oedd yn bosibl o'r blaen.

Beth Nesaf?

Wrth i anhwylder niwrolegol Andrew waethygu, bydd yn ei wneud hi'n anodd iddo gwblhau'r murluniau, felly mae'n gobeithio gallu buddsoddi mewn rheolwr.



"Rydw i wedi dysgu cymryd fy hun yn fwy o ddifrif oherwydd doedd e erioed wedi dod i'm meddwl y gallwn ddechrau a rhedeg busnes yn llwyddiannus [...] a chael fy nghymryd o ddifrif gan bartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol."

Cymorth Busnes Cymdeithasol Cymru

- Dyfarnodd UnLtd gyllid Ecwiti i Andrew i'w helpu i brynu offer TG a meddalwedd er mwyn sefydlu Community Murals.
- Bu Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn mentora Andrew drwy'r gwaith hanfodol o sefydlu'r cwmni.

Dyw Andrew ddim yn credu y byddai lle mae e nawr heb gefnogaeth UnLtd yn dweud eu bod nhw'n "fodlon mynd ymhell allan o'u ffordd i helpu".

- ***Dysgwch fwy am gymorth Busnes Cymdeithasol Cymru sydd ar gael i entrepreneuriaid cymdeithasol sy'n byw yng Nghymru yma.***
- ***Dysgwch fwy am Community Murals yma.***